# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 16 i 22 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar Ddatblygu Economaidd

5 Cwestiynau i'r Trefnydd

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Gwella Cysylltiadau Rhwng Gogledd a De Cymru

**Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr hyn y mae ei Lywodraeth wedi'i gyflawni o ran gwella cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De? (WAQ14049) [W]

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Gwnaed gwelliannau i'r prif ffyrdd sy'n cysylltu'r gogledd a'r de, sef ffordd yr A470 a ffordd yr A483, yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cwblhawyd gwelliant ffordd yr A483 Llanwnda i'r de o Lanllyfni yn ystod mis Medi eleni, ar gost o £12 miliwn. Gwahoddwyd tendrau ar gyfer cynllun ffordd yr A470 Dyffryn Lledr rhwng Dolwyddelan a Phont-yr-Afanc a fydd yn costio tua £15 miliwn; disgwylir i'r gwaith ddechrau yn 2002. Cyhoeddwyd cynlluniau rhaglen ffordd yr A483 Pant i Lanymynech, ar gost amcangyfrifedig o tua £17 miliwn ar y cyd â'r Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau ar 16 Awst.

Mae'r rhaglen gefnffyrdd yn cael ei hystyried ar hyn o bryd. Bydd yn ystyried argymhellion adroddiad Babtie a gwneir cyhoeddiad cyn hir.

Ers mis Mai 2000, mae'r Cynulliad wedi darparu cyllid ar gyfer gwasanaeth trên uniongyrchol ychwanegol rhwng Caerdydd a Chaergybi yn teithio trwy Wrecsam. Mae'r gwasanaeth hwn wedi ei ymestyn hyd at fis Mai 2002. Caiff gwasanaethau pellach i'r Gogledd eu hystyried fel rhan o broses masnachfraint Cymru a'r Gororau.

### Adolygiad o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**Peter Black:** Yn dilyn ateb Prif Weinidog Cymru i'm cwestiwn atodol ar OAQ13645 ar 6 Tachwedd, pryd y bydd yn penderfynu a fydd y Llywodraeth yn cynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (WAQ14216)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cabinet wedi comisiynu adolygiad eang ei gwmpas gan ei uned bolisi strategol o'r berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Bydd yr angen am newidiadau strwythurol pellach i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn cael ei ystyried ar ôl yr adolygiad hwn o'n cysylltiadau o ran cyflenwi gwasanaethau ac o ganlyniad i'r cylch o adolygiadau pum mlynedd.

### Gweinidogion yn Ateb Gohebiaeth

**Peter Black:** Mewn perthynas â'i ymrwymiad i lywodraeth agored, a wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi ystadegau chwarterol ar yr amser a gymer Gweinidogion i ateb gohebiaeth? (WAQ14219)

**Prif Weinidog Cymru:** Byddaf yn ysgrifennu atoch yn fuan ac yn rhoi copi o'm hateb yn y Llyfrgell.

### Cydlynu Polisi'r Llywodraeth (Sefydliadau Ewropeaidd)

**Peter Black:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydlynu polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â sefydliadau Ewropeaidd? (WAQ14286)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Llywodraeth yn cydweithio â sefydliadau Ewropeaidd mewn nifer o ffyrdd ar lefel gweinidogion a lefel swyddogion. Mae pob Gweinidog yn gyfrifol am agweddau Ewropeaidd ei faes polisi ef neu hi ac yr wyf innau'n cadw golwg gyffredinol ar faterion Ewropeaidd llorweddol. Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn edrych ar weithgarwch y Cynulliad mewn perthynas ag Ewrop i'r diben o'i gydgysylltu. Yr wyf yn mynychu Pwyllgor Gweinidogol Llywodraeth y

DU ar Ewrop pan fo busnes yn caniatáu ac yr wyf yn aelod o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar yr Undeb Ewropeaidd.

### Ymgynghorwyr Arbenigol y Democratiaid Rhyddfrydol

**Nick Bourne:** Beth yw'r gost o gyflogi ymgynghorwyr arbenigol i gynorthwyo Aelodau Democrataidd Rhyddfrydol sy'n aelodau o'r Cabinet a sut berthynas sydd ganddynt â'r ymgynghorwyr arbenigol a gyflogir i gynorthwyo aelodau Llafur o'r Cabinet? (WAQ14287)

**Prif Weinidog Cymru:** O Dachwedd 2000 hyd Fawrth 2001 y gost (cyflog crynswth ynghyd â chyfraniadau pensiwn) o gyflogi ymgynghorwyr arbenigol i gynorthwyo Democratiaid Rhyddfrydol sy'n aelodau o'r Cabinet oedd £20,907, ac o Ebrill 2001 hyd yn awr mae'r gost yn £50,285.

Mae pob un o'r chwe ymgynghorydd arbenigol yn ymgymryd ag ystod o wasanaethau ar ran aelodau'r Cabinet. Mae'r rhain yn cynnwys adolygu papurau polisi wrth iddynt gael eu rhoi i aelodau'r Cabinet, gan gynnwys tynnu sylw at oblygiadau gwleidyddol a sicrhau yr ymdrinnir â'r pwyntiau mwy gwleidyddol yn briodol. Mae'r chwe ymgynghorydd arbenigol yn rhan o uned polisi strategol y Cynulliad, sy'n tynnu swyddogaethau'r uned bolisi a'r ymgynghorwyr arbenigol ynghyd er mwyn cynorthwyo Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion eraill i ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau polisi.

## Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

### Partneriaethau Cyd-fenter (WDA)

**Peter Black:** Sawl partneriaeth cyd-fenter y mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi'i harwyddo gyda chynghorau lleol? (WAQ14167)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar 31 Mawrth 2001, yr oedd Awdurdod Datblygu Cymru â rhan mewn 57 cytundeb cyd-fenter gydag awdurdodau lleol. Mae partïon eraill hefyd yn rhan o nifer o'r rhain.

Mae'r asiantaeth hefyd wedi arwyddo cytundebau strategol gyda thri awdurdod lleol.

### Cyflogaeth ym Mynwy (Effeithiau Diswyddiadau)

**David Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effeithiau'r diswyddiadau yn Rank Xerox Cyf, Nimbus a Triwall ar farchnad swyddi Mynwy? (WAQ14168)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn gresynu'n fawr at y diswyddiadau hyn, sy'n deillio o benderfyniadau masnachol a waned gan y cwmnïau dan sylw. Tra bo Nimbus a Triwall wedi'u lleol ym Mynwy, yn Swydd Gaerloyw y mae Rank Xerox, er bod rhan o'i weithlu yn byw yn Sir Fynwy. Mae'r asiantaethau yng Nghymru yn cadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau ac, o ran anghenion sgiliau y farchnad lafur leol, bydd Dysgu ac Addysgu Cymru a'i bartneriaid yn ystyried cymorth priodol i bobl sy'n byw yng Nghymru.

### Effaith 11 Medi (Trafodaethau gydag Airbus a'r Undebau Llafur)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Airbus a'r undebau llafur ynghylch cynyddu hyblygrwydd ac osgoi diswyddiadau ym Mrychdyn yn dilyn yr effaith ar y diwydiant awyrennau wedi 11 Medi? (WAQ14169)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf wedi trafod y sefyllfa gyda'r prif gwmnïau yn y sector awyrofod yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn monitro'r sefyllfa'n agos gyda'r cwmni hwn, ac eraill yn y sector, yn ogystal â chwmnïau yn y gadwyn gyflenwi.

Byddaf yn ymweld â gogledd Cymru yn ddiweddarach yn y mis i ddynodi degfed mlwyddiant ar hugain y ffatri ym Mrychdyn.

O safbwynt Airbus, mae'r cwmni a'r undebau llafur yn gwneud pob ymdrech i gynyddu hyblygrwydd i ymateb i'r sefyllfa yn nhermau goramser a threfniadau shifft, ac i leihau effaith digwyddiadau 11 Medi ar y gweithlu i'r eithaf. Mae'r cwmni wedi ymrwymo i'w raglen prentisiaethau. Mae'n dal i godi'r ffatri lle y caiff adenydd yr A380 eu hadeiladu. Cafodd y rhaglen A380 hwb yn ddiweddar wrth i gwmni hedfan yr Emirates Airlines archebu 22 o awyrennau A380.

**Dosbarthu Adnoddau Datblygu Economaidd yn Deg**

**William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr adnoddau ar gyfer datblygu economaidd ac os y cânt eu rhannu'n deg ledled Cymru? (WAQ14170)

**Prif Weinidog Cymru:** Pennir pa adnoddau sydd i'w dyrannu ar gyfer datblygu economaidd yn flynyddol yn dilyn cylch cyllideb a chynllunio strategol y Cynulliad. Caiff adnoddau eu dyrannu ar sail strategol, gan dargedu'r meysydd allweddol y tynnwyd sylw atynt yn 'Cynllun ar gyfer Cymru 2001' a 'Cymru ar ei Hennill', er enghraifft drwy ddarparu cyllid Amcan 1 dros y chwe mlynedd nesaf i orllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda symiau llai ar gael drwy Amcan 3 i'r rhannau hynny o Gymru nad ydynt yn rhan o'r dalgylch Amcan 1. Gall datblygu economaidd hefyd elwa o wariant y Cynulliad mewn meysydd megis addysg, trafnidiaeth, hyfforddiant, twristiaeth ac adfer cefn gwlad.

**Ymestyn y Rhwydwaith Rheilffyrdd**

**William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddisgrifio'r trafodaethau a gafodd am ddatblygu economi Cymru yn y dyfodol trwy ymestyn y rhwydwaith rheilffyrdd? (WAQ14171)

**Prif Weinidog Cymru:** Caiff Sue Essex a minnau drafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion Trafnidiaeth y DU, yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a buddianwyr eraill yn y diwydiant, am ymestyn y rhwydwaith rheilffyrdd a gwella'r cyfleusterau presennol. Maent yn gwbl ymwybodol o'n hawydd i weld y rheilffyrdd yn chwarae rhan lawn o fewn gwell cysylltiadau trafnidiaeth yng Nghymru, ac yn cydnabod y gall mynediad gwael fod yn rhwystr rhag mewnfuddsoddi.

Er nad oes gan y Cynulliad bwerau penodol mewn perthynas â materion rheoleiddio na refeniw y rheilffyrdd, gall gyllido cynlluniau i ddatblygu rheilffyrdd, megis y £60 miliwn a neilltuwyd i wella gwasanaethau Valley Lines dros y pum mlynedd nesaf, a fydd yn cynnwys ailagor lein Bro Morgannwg i deithwyr yn 2003. Mae ailagor lein Glynebwy i Gasnewydd i deithwyr yn cael ei ystyried, ynghyd â gwelliannau i lein y Cambrian. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gefnogi gwasanaeth dwyffordd dyddiol o Gaerdydd i Gaergybi drwy Wrecsam. Edrychwn ymlaen at ailgydio ym mhroses aildrefnu rhyddfraint Cymru a'r Gororau, cyn gynted ag sy'n ymarferol.

**inPact Technologies, CQR ac Adran Wybodeg Prifysgol Bangor**

**Peter Rogers:** O ran defnyddio arian cyhoeddus, beth yw'r berthynas rhwng inPact Technologies Llanelwy, CQR ym Mharc Busnes Menai ac adran wybodeg Prifysgol Bangor? (WAQ14174)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn croesawu cysylltiadau rhwng prifysgolion a busnesau, yn enwedig gan y gall hynny helpu yn ein nod o ehangu datblygiadau sydd wedi'u seilio ar wybodaeth yng Nghymru. Yn ôl a ddeallaf nid yw adran wybodeg Prifysgol Bangor wedi cael unrhyw drafodion ariannol ag inPACT Technologies o Lanelwy. Y prif gysylltiad ariannol rhwng CQR a'r adran yw cyflenwi gwasanaethau hyfforddi ac ymchwil ar sail fasnachol.

### Amcan 1 (Rhondda Cynon Taf)

**Owen John Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y modd y mae cynlluniau Amcan 1 yn cael eu gweithredu yn ardal Rhondda Cynon Taf? (WAQ14209) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r rhaglen Amcan 1 yn cael ei gweithredu yn ardal Rhondda Cynon Taf yn yr un modd ag y caiff ei gweithredu yng ngweddill ardal Amcan 1. Mae'r partneriaethau lleol yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ac â datblygu prosiectau hyd at y pwynt lle y gellir gwneud cais llawn, pan fo'r cais yn cael ei gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i'w arfarnu. Gall partneriaethau sector hefyd gael prosiectau a fydd er lles busnesau a chyflogaeth yn Rhondda Cynon Taf.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Cyfleusterau Fideo-Gynadledda

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl achlysuron y defnyddiodd y cyfleusterau fideo-gynadledda ers 1 Mawrth 2001? (WAQ14073)

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Ers 1 Mawrth 2001, yr wyf wedi defnyddio'r cyfleusterau fideo-gynadledda ar 21 Mehefin a 4 Gorffennaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Orielau Celf yng Nghymru

**Nick Bourne:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r adolygiad o'r celfyddydau gyflwyno adroddiad mewn perthynas ag orielau celf yng Nghymru? (WAQ14386)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae adolygiad Cyngor Celfyddydau Cymru o'r ddarpariaeth orielau yng Nghymru yn un o nifer o adolygiadau yr wyf yn eu cynnal er mwyn casglu tystiolaeth a fydd yn goleuo strategaeth gelfyddydau bum-mlynedd y cyngor. Nid wyf wedi gweld yr adroddiad eto, ond byddaf yn disgwyl gweld cynigion y cyngor fel rhan o'i strategaeth bum-mlynedd maes o law.

Yn ogystal, mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn y broses o adolygu'r modd y caiff ei gasgliadau o gelfyddyd gain a chymhwysol eu harddangos. Bydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi dogfen ymgynghori a chaiff hon ei hanfon at Aelodau'r Cynulliad am eu barn. Mae hyn yn deillio o ymgynghori rhagarweiniol â'r rheini sy'n gweithio yn y maes yn gynharach eleni, pryd y rhoddwyd cyflwyniad i Aelodau'r Cynulliad.

Deallaf oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru iddo fod mewn cysylltiad agos â'r amgueddfa genedlaethol ynglyn â'r adolygiadau, gan sicrhau bod gwaith y ddau sefydliad yn asio i'w gilydd.

### Cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion unrhyw gynnydd a wnaethpwyd o ran hybu cais Caerdydd am fod yn Ddinas Diwylliant 2008? (WAQ14387)

**Jenny Randerson:** Er fy mod yn falch fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi neilltuo hyd at £500,000 fel nawdd cyfatebol i gynorthwyo Caerdydd yn ei chais i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008, mater i Gaerdydd yw cyhoeddi manylion am gynnydd. Yr wyf yn falch, felly, fod Caerdydd wedi dechrau cyhoeddi deunydd hyrwyddo, y gellir ei weld ynghyd ag adroddiad cynnydd ar ei wefan:

www.cardiff2008.co.uk. Mae Caerdydd hefyd yn croesawu cyswllt a syniadau y gellir eu trosglwyddo drwy'r wefan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cyflog Darlithwyr Coleg

**Rod Richards:** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer sicrhau bod colegau'n talu'r codiad o 5.7 y cant yn nhâl darlithwyr fel a roddir yn Lloegr? (WAQ14062)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mater i'w benderfynu gan y corff llywodraethu, fel y cyflogwr, yw tâl ac amodau staff o fewn pob un o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Nid oes i'r Cynulliad unrhyw ran mewn materion o'r fath. Fodd bynnag, yn fy llythyr cylch gwaith 2001 at Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg ac Hyfforddiant, eglurais fod y Cynulliad yn disgwyl i gyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach ddilyn polisi tâl y sector cyhoeddus drwy roi sylw i degwch, yr angen am recriwtio, ysgogi a chadw staff, a'r hyn y gellir ei fforddio, o fewn y cyfyngiadau a osodwyd gan setliad cyllideb flynyddol y cyngor.

### Cyflog Darlithwyr Addysg Bellach

**Rod Richards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar argymhelliad Fforwm i roi codiad cyflog o 4.25 y cant yn unig i ddarlithwyr addysg bellach yn hytrach na'r swm llawn o 5.7 y cant a roddir yn Lloegr? (WAQ14070)

**Jane Davidson:** Nid yw Fforwm yn gorff negodi. Mae Cymdeithas Colegau Cymru a Lloegr, yr unig gorff sydd â hawliau negodi ar ran cyflogwyr addysg bellach, wedi argymell codiad cyflog cenedlaethol o 3.7 y cant i staff addysgu o 1 Awst 2001. Tra'n pwysleisio mai cyfrifoldeb corff llywodraethu pob coleg yw pennu tâl ac amodau ei staff a chan ystyried amgylchiadau lleol unigol, mae Fforwm wedi cynghori ei aelodau y dylai'r holl golegau yng Nghymru allu fforddio dyfarniad cyflog o 4.25 y cant eleni, ynghyd â beth bynnag y gall colegau unigol ei fforddio ar ben y canran hwnnw.

Yr wyf yn deall bod 96 y cant o golegau Cymru wedi cadw at neu wedi rhagori ar yr argymhelliad cenedlaethol. Hyd yma, fe'm hysbysir fod tua 20 y cant o golegau Lloegr heb gydymffurfio â'r argymhelliad cenedlaethol.

### Cyfleusterau Fideo-gynadledda

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl achlysuron y defnyddiodd y cyfleusterau fideo-gynadledda ers 1 Mawrth 2001? (WAQ14076)

**Jane Davidson:** Ers 1 Mawrth 2001, yr wyf wedi defnyddio'r cyfleusterau fideo-gynadledda unwaith ar 5 Ebrill.

### Gwella Safonau Addysg

**Alun Cairns:** Sut y bydd y Gweinidog yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan ysgolion i wella safonau addysg? (WAQ14084)

**Jane Davidson:** Caiff y wybodaeth sydd ar gael i'r Cynulliad ei defnyddio ar lefel awdurdodau lleol a lefel genedlaethol i fonitro safonau perfformiad a chynnydd tuag at ein targedau gwella. Mae'r wybodaeth yn rhan o'r dystiolaeth y llunnir polisi ac y sefydlir cynlluniau, megis ein strategaethau llythrennedd a rhifedd, arni.

**Gwybodaeth y Tabl Cynghrair Perfformiad**

**Alun Cairns:** A fydd y Gweinidog yn derbyn gwybodaeth ar y tabl cynghrair perfformiad, fel y gwnaethpwyd cynt oddi wrth ysgolion unigol, yn dilyn ei newidiadau i strwythur y tabl cynghrair? (WAQ14085)

**Jane Davidson:** Wrth gyhoeddi y peidiwn â pharhau â'r llyfrynnau gwybodaeth perfformiad ysgolion—nad chawsant eu cyflwyno ar ffurf tabl perfformiad—fe'i gwneuthum yn glir y byddai'r Cynulliad yn parhau i fonitro safonau perfformiad ledled Cymru. Fel rhan o wasanaeth canlyniadau'r Cynulliad, darperir ei chanlyniadau ei hun i bob ysgol i'w defnyddio gyda rhaglenni gwella'r ysgol ac i'w cynnwys mewn prosbectysau ac yn adroddiadau blynyddol llywodraethwyr.

**Cludiant rhwng yr Ysgol a'r Cartref**

**Owen John Thomas:** A fydd y Gweinidog yn rhoi i mi fanylion trefniadau cludiant ysgol i'r cartref, statudol ac fel arall, ar gyfer pob un awdurdod lleol am grwpiau plant, tri i bump, pump i wyth, wyth i 11, 11 i 16 ac 16 i 19 oed, gan gynnwys yn benodol y terfyniadau pellter amrywiol a ddefnyddir ac unrhyw gymhwysiad a roddir, yn rhad neu fel arall, i'r rhai nad oes ganddynt hawl i'r budd statudol perthnasol, naill ai yn ôl pellter teithio neu grŵp oedran? (WAQ14176) [W]

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog. Yn statudol, mae'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol ddarparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n byw mwy na dwy filltir oddi wrth eu hysgol addas agosaf, yn achos plant o dan wyth mlwydd oed, a mwy na thair milltir oddi wrth eu hysgol addas agosaf, yn achos plant wyth mlwydd oed a throsodd. Gall awdurdodau addysg lleol drefnu darpariaeth fwy hael na hynny os ydynt yn dymuno, a gallant hefyd ddarparu trafnidiaeth y mae'n rhaid i rieni dalu amdani. Mae llawer yn gwneud hynny.

**Arolwg Rhieni Plant o dan Oed Ysgol**

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi beth oedd prif ganfyddiadau'r arolwg a gynhaliwyd o rieni â phlant sydd o dan oed ysgol? (WAQ14210)

**Jane Davidson:** Cesglir data yr holiaduron i rieni ar ein rhan ar hyn o bryd gan yr awdurdodau addysg lleol unigol. Disgwyliaf dderbyn y wybodaeth hon yn fuan a hyd nes i mi wneud hynny, ni allaf lunio unrhyw gasgliadau pendant.

**Darparu Lleoedd i Blant Tair Oed mewn Ysgolion**

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi faint y mae awdurdodau lleol wedi paratoi i ddarparu lleoedd i blant tair oed mewn ysgolion? (WAQ14211)

**Jane Davidson:** Yr ydym yn symud ymlaen yn dda ar sawl agwedd. Cesglir data yr holiaduron i rieni gan yr awdurdodau addysg lleol unigol ar hyn o bryd, a gobeithiaf dderbyn y wybodaeth hon yn fuan. Yn amlwg, hyd nes i mi wneud hynny, ni allaf lunio unrhyw gasgliadau pendant.

Yr ydym hefyd wedi gwahodd awdurdodau addysg lleol a'u partneriaethau datblygu y blynyddoedd cynnar a gofal plant i gomisiynu gwaith ar gynigion amlinellol i ddatblygu canolfannau integredig sy'n ymgorffori addysg blynyddoedd cynnar, a gofal plant sy'n amlapio. Gall y canolfannau hefyd gynnwys ystod o gymorth i deuluoedd a chyfleoedd ymestyn dysgu.

Mae'n bosibl y byddai canolfannau o'r fath yn gymwys i gael cymorth o sawl ffynhonnell cyllido, oddi mewn i'r Cynulliad yn ogystal ag oddi wrth asiantaethau allanol, megis y gronfa cyfleoedd newydd. Mae yna faterion yn ymwneud â chyd-drefnu'r cyfleoedd cyllido hyn yn amlwg a cheisiwn ddatblygu cyngor

clir ac amserol i bartneriaethau er mwyn iddynt lunio cynigion a fydd yn cyflawni targed y Cynulliad o ymestyn darpariaeth y blynyddoedd cynnar i bob plentyn tair oed erbyn Medi 2004.

**Lleihau'r Amser a dreulia Athrawon ar Waith Gweinyddol**

**Nicholas Bourne:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu lleihau maint yr amser a dreulia athrawon ar waith gweinyddol? (WAQ14276)

**Jane Davidson:** Ein nod yw rhoi camau ar waith i sicrhau polisi cynaliadwy o leihau'r baich mewn ysgolion, a bod y chwaraewyr allweddol oll yn cefnogi'r camau hynny.

Cafodd yr adroddiad ar y prosiect i ysgafnhau'r baich biwrocrataidd ar ysgolion ei gymeradwyo'n unfrydol mewn Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf 2001. Dechreuwyd rhoi'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad ar waith. Er enghraifft, yr ydym wedi rhoi grant o £1,000 i bob ysgol yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau cymorth gweinyddol ychwanegol, gan ryddhau amser athrawon drwy hynny.

Yn ddiweddar, cyhoeddais fod y profion statudol i blant saith oed yn dod i ben. Mae hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ar athrawon cynradd ac yn rhyddhau amser i weithgareddau eraill yn y dosbarth.

Cynhyrchwyd adroddiad terfynol drafft yr astudiaeth o faich gwaith athrawon yng Nghymru a Lloegr, a gynhaliwyd gan PricewaterhouseCoopers ar ran yr Adran Addysg a Sgiliau, ar 12 Tachwedd. Mae'n ystyried ffyrdd ymarferol o ymdrin â materion baich gwaith. Caiff yr adroddiad drafft ei ystyried gan grŵp llywio'r astudiaeth a, maes o law, caiff ei gyfeirio at Gorff Adolygu'r Athrawon Ysgol.

Yn amlwg, bydd yn cymryd amser i'r camau a nodwyd gael effaith.

**Dyled Myfyrwyr**

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda chynrychiolwyr myfyrwyr ynghylch dyled myfyrwyr? (WAQ14278)

**Jane Davidson:** Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a gomisiynais gan y grŵp annibynnol sy'n ymchwilio i galedi ymysg myfyrwyr a chyllido yng Nghymru (adroddiad Rees) ym Mehefin, cyfarfûm â chynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru i drafod eu hymateb i'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad.

O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, gwahoddwyd NUS Cymru i gyflwyno ei argymhellion ar ddynodi'r grwpiau hynny o fyfyrwyr y dylid eu hystyried yn achosion â blaenoriaeth wrth ddyfarnu arian mynediad a chaledi dewisol. Ymgorfforwyd ei argymhellion yn llawn yn y canllawiau diwygiedig a roddwyd i swyddogion cefnogi myfyrwyr cyn dechrau'r flwyddyn academaidd bresennol.

**Datblygu Gyrfa ac Ailhyfforddi**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cydraddoldeb ariannu ar gyfer datblygu gyrfa ac ailhyfforddi? (WAQ14279)

**Jane Davidson:** Fel a amlinellwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu', mae cydraddoldeb wrth wraidd polisïau dysgu'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad yn ariannu cefnogaeth i holl oedolion Cymru ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i waith, gyda help ychwanegol i'r rheini sydd heb swydd ar hyn o bryd.

O dan ein hagenda ôl-16, mae'r Cynulliad yn ariannu'r Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg ac Hyfforddiant, Dysgu ac Addysgu Cymru, i gyflwyno darpariaeth hyfforddiant yn y gweithle, sy'n adlewyrchu anghenion y farchnad lafur yn lleol, er mwyn helpu pobl sydd â diffyg mantais oherwydd diweithdra neu segurdod economaidd hirdymor i ddatblygu'r sgiliau a'r doniau hynny sy'n ofynnol i sicrhau gwaith a gwneud cynnydd. Gellir defnyddio'r gefnogaeth hon hefyd i helpu ailhyfforddi'r rheini

sydd ar fin colli eu swyddi fel rhan o ddiswyddo mawr. Mae darpariaeth hyfforddi'r Cynulliad yn ategu'r ystod eang o help sydd ar gael hefyd i grwpiau o dan anfantais yng Nghymru drwy'r Fargen Newydd a rhaglenni eraill o fudd-dâl i waith. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau sy'n gyfrifol am y rhaglenni hynny ac nid ydynt wedi eu datganoli i'r Cynulliad.

Mae cymorth arall ar gael i helpu pawb—y cyflogedig a'r di-waith—i ddatblygu sgiliau er mwyn gwella, neu newid, gyrfa. Mae cyfrifon dysgu personol y Cynulliad, a gyflenwir gan y cyngor cenedlaethol, ELWa, yn rhoi gostyngiad o un ai 20 y cant neu 80 y cant ar gost dysgu (ceir rhai cyfyngiadau ar gyrsiau a chostau). Bu'r rhain yn llwyddiannus iawn yng Nghymru, gyda dros 60,000 o gyfrifon dysgu unigol wedi eu hagor hyd yma. Yn ogystal, gall benthyciadau datblygu gyrfa, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau'n gyfrifol amdanynt ac nad ydynt wedi'u datganoli i'r Cynulliad, ddarparu rhwng £300 ac £8,000 i gefnogi hyd at ddwy flynedd o addysg neu hyfforddiant.

Bydd y Cynulliad yn parhau i weithio gyda'r cyngor cenedlaethol, ELWa, yr Adran dros Waith a Phensiynau a'r Adran dros Addysg a Sgiliau i sicrhau bod pobl, drwy eu hoes waith, yn cael eu hannog a'u helpu, fel sy'n briodol, er mwyn datblygu'r sgiliau hynny y mae arnynt eu hangen i gynyddu eu cyfraniad i'r economi a'u hangen ar ddiwydiant i ffynnu yng Nghymru.

## Ysgol Plas Brondyffryn

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gynnydd y negodiadau rhwng ei swyddogion, Cyngor Sir Ddinbych a Sefydliad Shirley, mewn perthynas â'i chyhoeddiad ar 23 Tachwedd 2000 am arian ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn? (WAQ14283)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi rhyddhau £2 filiwn i Gyngor Sir Ddinbych er mwyn iddo ddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn fel canolfan ranbarthol dros awtistiaeth.

Bu fy swyddogion yn trafod yn rheolaidd â Chyngor Sir Ddinbych a bu iddynt gyfarfod ddiwethaf â'i gynrychiolwyr ar 9 Tachwedd. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, mae fy swyddogion bellach yn ystyried cynlluniau'r cyngor sir i ddarparu ar gyfer gwahanol elfennau'r prosiect a bwriadant ymweld â'r safleoedd arfaethedig yn gynnar fis nesaf.

Rhoddwyd sicrwydd i'r swyddogion bod trafodaethau cadarnhaol a pharhaus rhwng Sir Ddinbych a Sefydliad Shirley ynglŷn ag Ymddiriedolaeth Brondyffryn, y rhagwelir y bydd yn cefnogi elfen breswyl y prosiect.

Edrychaf ymlaen at ystyried cynigion terfynol Cyngor Sir Ddinbych ar Ysgol Plas Brondyffryn, a deallaf y byddant yn dod i law yn gynnar iawn yn 2002. Ei fwriad ar hyn o bryd, yn amodol ar drafodaethau pellach a chytundeb gyda'r prif awdurdodau addysg lleol sy'n cymryd rhan, cwblhau'r holl ofynion statudol yn foddhaol a chymeradwyaeth ffurfiol gennym ni, yw y dylai gwaith ddechrau ar y safle yn gynnar yn 2002-03 gydag elfennau allweddol yr ysgol wedi'u cwblhau ymhen blwyddyn.

## Cymwysterau Technoleg Gwybodaeth Arbenigol

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwyno grantiau i alluogi pobl sy'n gweithio i ddilyn cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau technoleg gwybodaeth arbenigol? (WAQ14285)

**Jane Davidson:** Mae rhaglenni hyfforddi a gyllidir gan y Cynulliad yn canolbwyntio ar ddarparu sgiliau galwedigaethol i bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur a'r di-waith. Rhaid i gyflogwyr ysgwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau bod eu gweithwyr yn derbyn hyfforddiant addas, a gall y Cynulliad ddarparu rhywfaint o gymorth o dan rai amgylchiadau. Yn arbennig, mae ein diploma sgiliau modern i oedolion, sy'n unigryw yng Nghymru, yn darparu hyfforddiant sgiliau strwythuredig ar lefel 3 ac uwch i'r rheini sydd dros 25 oed, a gall hyn gynnwys rhywfaint o sgiliau technoleg gwybodaeth. Mae 700 o lefydd ar gael yn y flwyddyn bresennol ac mae'r galw yn uchel. Hefyd, gellir defnyddio cyfrifon dysgu personol,

sydd ar gael i drigolion 18 oed a throsodd yng Nghymru, i helpu talu am ystod eang o hyfforddiant, ac mae rhai cyrsiau TG yn gymwys i gael gostyngiad o 80 y cant ar y gost.

### Hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth i Ffermwyr

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau rhwng ELWa, University for Industry Cymru a Lantra ynghylch darparu hyfforddiant TG i ffermwyr yng Nghymru? (WAQ14338)

**Jane Davidson:** Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd rhwng UfI a Lantra ynglyn â'r posibilrwydd o cyflwyno pecyn TG dysgu o bell i ffermwyr yng Nghymru. Mae'r pecyn ar gael eisoes yn Lloegr, lle cafodd ei ddatblygu, ac mae Lantra'n awyddus i'r pecyn gael ei ddarparu yng Nghymru.

Mae Lantra hefyd wedi cysylltu â'r cyngor cenedlaethol, ELWa, ynglŷn â'r fenter hon, ac mae swyddogion ELWa ar hyn o bryd yn disgwyl rhagor o fanylion er mwyn i'r cais arfaethedig yng Nghymru gael ei asesu'n llawn.

### Pecynnau Gwyddoniaeth i Ysgolion

**Jonathan Morgan:** A yw'r pecynnau gwyddoniaeth ar gyfer ysgolion, sydd ar gael yn Lloegr trwy'r grid cenedlaethol ar gyfer dysgu, ar gael yng Nghymru? (WAQ14375)

**Jane Davidson:** Nid yw'r pecynnau gwyddoniaeth i ysgolion ar gael yng Nghymru. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r flwyddyn wyddoniaeth yn Lloegr a byddwn yn ystyried unrhyw gynlluniau a gyflwynir ganddi, ond ein nod yw i Gymru gael ei chynlluniau neilltuol ei hun yn ystod y flwyddyn wyddoniaeth. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Cynulliad wedi talu am ddarparu microsgopau Intel am ddim i bob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru a gobeithiwn ddarparu byrddau gwyn rhyngweithiol i adrannau gwyddoniaeth fel rhan o'r fenter band llydan a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yn ogystal, yr ydym yn darparu cyllid i gynorthwyo prosiectau ac ymweliadau gwyddoniaeth ysgolion.

### Cyfrifiaduron ar Gyfer Athrawon

**Jonathan Morgan:** Pa gynlluniau sydd yng Nghymru i ddarparu cyfrifiaduron ar gyfer athrawon a sut y mae'r cynlluniau hyn yn cymharu â'r rhai a gynigir yn Lloegr? (WAQ14376)

**Jane Davidson:** Nid yw'r cynllun 'cyfrifiaduron ar gyfer athrawon' ar waith yng Nghymru, ac nid oes gennym unrhyw gynigion ar hyn o bryd i gyflwyno cynllun cyfatebol. Ein blaenoriaeth yw gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau TGCh sydd ar gael i godi safonau a hybu cynhwysiant cymdeithasol. Gellir cyflawni hyn yn well drwy weithredu ar sail yr ysgol, neu drwy ehangu mynediad at gyfrifiaduron, na thrwy wneud darpariaeth ar gyfer athrawon unigol. Dyma'r egwyddor sydd wrth wraidd cynlluniau megis y fenter £16 miliwn 'TGCh ar gyfer Dysgu' a lansiwyd yn gynnar eleni, a'r £9.9 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ddarparu byrddau gwyn rhyngweithiol ar gyfer pob ysgol. Fodd bynnag, yr wyf hefyd ar hyn o bryd yn ystyried cynlluniau i ddarparu gliniaduron ar gyfer penaethiaid sydd newydd eu penodi fel rhan o dreialu datblygiad cymuned ar-lein ar batrwm cyffelyb i'r cynllun 'talking heads' yn Lloegr.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Pont Britannia

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog, yn dilyn y llythyr a anfonodd ataf dyddiedig 7 Tachwedd 2001, ddatgan y gost o agor trydedd lôn ar bont Britannia? (WAQ14177)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Nid yw'n bosibl rhoi unrhyw amcangyfrif cywir o'r gost o greu trydedd lôn ar bont Britannia heb lawer iawn o waith ymchwilio. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai'n costio miliynau.

### Ail-gylchu Gwastraff Domestig

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau a pherfformiad awdurdodau lleol Canol De Cymru wrth ail-gylchu gwastraff domestig? (WAQ14215) [W]

**Sue Essex:** Y gyfradd bresennol ar gyfer compostio/ail-gylchu gwastraff *tai* ar gyfer yr awdurdodau hyn yw tua 5 y cant. Mae Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo drwy gytundebau polisi â'r Cynulliad i gyrraedd 15 y cant erbyn 2003-04. Mae Caerdydd wedi ymrwymo i gyrraedd 13 y cant.

### Ansawdd y Dŵr ym Mae Caerdydd

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ansawdd y dŵr ym Mae Caerdydd? (WAQ14217) [W]

**Sue Essex:** Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd yn monitro ansawdd y dŵr yn y bae yn rheolaidd drwy gyfrwng offer ansawdd dŵr parhaus ac mae'r wybodaeth a geir yn cael ei harchwilio gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rhaid cynnal a chadw safon o 5mg/l o ocsigen toddedig drwy'r bae i gyd o dan Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993. Mae'r lefelau halltedd a chloroffil hefyd yn cael eu monitro.

Dros y chwe mis diwethaf, dywed yr asiantaeth bod y gwaith monitro'n dangos bod ansawdd y dŵr yn y bae wedi bod yn dderbyniol fel arfer a chyrhaeddwyd y safon o ocsigen toddedig yn gyffredinol. Er hynny, yn ystod yr haf gwelwyd achosion o wawr algaidd glaswyrdd, lefelau annerbyniol o ocsigen toddedig ac, yn dilyn storm a glaw trwm, gwelwyd dirywiad yn ansawdd y dŵr yn afon Elái.

Dengys adroddiadau archwilio misol yr asiantaeth o ddata Awdurdod Harbwr Caerdydd bod methiannau aml iawn yn safon yr ocsigen toddedig, er gan amlaf yr oeddent yn y golofn ddŵr isaf yn y meysydd dyfnaf, ac yr oeddent yn gysylltiedig i raddau â phresenoldeb dŵr hallt. Mae llif gynyddol yr afon a thymheredd is a ddaw yn sgîl y gaeaf wedi arwain at leihad yn y nifer o fethiannau mewn perthynas â lefelau ocsigen toddedig.

Erbyn hyn, mae'r gwaith o ychwanegu system awyru er mwyn cynnal y safon o ocsigen toddedig wedi ei gwblhau ac mae cynlluniau i reoli dŵr hallt yn cael eu llunio gan Awdurdod Harbwr Caerdydd. Gobeithir y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cytuno arnynt cyn gynted â phosibl.

### Cyfleusterau Fideo Gynadledda

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ14077, a all y Gweinidog roi manylion yr holl droeon a ddefnyddiodd y cyfleusterau fideo gynadledda ers 1 Mawrth 2001? (WAQ14374)

**Sue Essex:** Ers 1 Mawrth 2001, yr wyf wedi defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda ar 1 Mai mewn cyfarfod ar y cyd â Carwyn Jones ac ar 24 Hydref i'r diben o gynnal cyfarfod dwyochrog gyda Martin Evans, Cyfarwyddwr y Grŵp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd.

### Ffordd Liniaru Talgarth

**Nick Bourne:** Pa gynrychioliadau a dderbyniodd y Gweinidog o ran yr angen am ffordd liniaru i Dalgarth ac a fydd hi'n cyhoeddi'r cynrychioliadau? (WAQ14377)

**Sue Essex:** Derbyniwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r cyhoedd, awdurdodau lleol, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac eraill sydd â diddordeb fel rhan o'r ymynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ynglŷn â llwybrau ar gyfer ffordd liniaru. Caiff crynodeb o'r sylwadau eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd i'w gyhoeddi yr un pryd â'r llwybr a ffafrir, y gobeithiaf ei gyhoeddi'n fuan.

### Damweiniau Traffig ar yr A479

**Nick Bourne:** A fu unrhyw arolwg o ddamweiniau traffig, gorlifoedd ac ati ar gornel ffordd yr A479 yn Nhalgarth? (WAQ14378)

**Sue Essex:** Cynhaliwyd arolwg o ddamweiniau traffig yn cynnwys y darn o'r gefnffordd yr ydym yn ystyried ar gyfer ffordd liniaru a ffyrdd ochr cysylltiol ar ei gyfer. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys mewn adroddiad gwerthuso technegol sydd i'w gyhoeddi yr un pryd â'r llwybr a ffafrir, y gobeithiaf ei gyhoeddi'n fuan.

### Safonau Ewropeaidd ar gyfer Traethau Ymdrochi

**Nick Bourne:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wneud iawn am y sefyllfa yn Nhywyn oherwydd ei methiant i gyrraedd safonau Ewropeaidd priodol ar gyfer y traeth ymdrochi? (WAQ14388)

**Sue Essex:** Methodd y dŵr ymdrochi yn Nhywyn â chyrraedd safonau gorfodol y Comisiwn Ewropeaidd ar facteria ysgarthol y colon ar ddau achlysur yn ystod yr haf eleni. Yr oedd y ddau fethiant yn annisgwyl gan fod dadansoddiad ystadegol blaenorol wedi dangos risg isel iawn o beidio â chydymffurfio. Ni allai ymchwiliadau cychwynnol Asiantaeth yr Amgylchedd ganfod unrhyw reswm arwyddocaol dros y naill fethiant na'r llall er i'r prawf halwynedd awgrymu dylanwad dŵr croyw. Mae prif ddraen Tywyn yn arllwys rhyw 1.5 km i'r gogledd ac mae'r asiantaeth yn parhau i ymchwilio unrhyw gysylltiad posibl â'r methiannau.

Mae'r ychwanegiad arfaethedig yn narpariaeth cymorth grant yr asiantaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf, y caniateir ar ei gyfer yng nghyllideb ddrafft y Cynulliad, yn cynnwys dyraniad ar gyfer rhagor o weithgaredd gan yr asiantaeth yng Nghymru i flaenoriaethu a mynd i'r afael â llygredd tryledol sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi. Mae'r asiantaeth hefyd yn cysylltu â Dŵr Cymru/Welsh Water i ganfod a oes yna unrhyw gyswllt â'i weithrediadau ef.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Busnesau a Effeithiwyd gan Glwy'r Traed a'r Genau

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ailystyried dyrannu arian i helpu busnesau sydd wedi dioddef oherwydd clwy'r traed a'r genau? (WAQ14173)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Yr ydym wedi nodi yn y cynllun adfer cefn gwlad y mesurau mawr y bwriadwn eu cymryd, ac wedi amlinellu gwerth £60 miliwn o wariant newydd a £5 miliwn o wariant a ailflaenoriaethwyd i gynorthwyo'r economi wledig dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cynllun adfer yn cynnwys £21 miliwn i awdurdodau lleol i'r diben o ddarparu cymorth ariannol yn y flwyddyn ariannol hon i fusnesau yr effeithiwyd yn andwyol arnynt eisoes gan glwy'r traed a'r genau. Cyhoeddais yn ddiweddar y caiff £1.1 miliwn o'r swm hwn ei ailddyrannu i'r awdurdodau gwledig yr effeithiwyd arnynt waethaf gan y clwyf. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys mesurau i helpu busnesau mewn sawl sector o'r economi wledig—gan gynnwys twristiaeth ac amaethyddiaeth.

### Menter Cyllid Preifat

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio mentrau cyllid preifat i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol? (WAQ14208)

**Edwina Hart:** Byddaf yn gwneud datganiad ar ffrwyth fy ymgynghori ynglŷn â phartneriaethau cyhoeddus-preifat/PFI yng Nghymru dros yr wythnosau nesaf.

**Mesur Cydradd-ddaliad a Diwygio Prydles**

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog ac aelodau Llywodraeth San Steffan ynghylch y Mesur arfaethedig ar brydles? (WAQ14213) [W]

**Edwina Hart:** Mae'r Mesur Cydradd-ddaliad a Diwygio Prydles gerbron y Senedd ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw faterion unigryw i Gymru. Mae Gweinidogion yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau wedi ymgynghori â mi ar gynnwys y Mesur ac ar amryw gymalau diwygio.

**Cronfa Adfywio'r Meysydd Glo**

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar sut y defnyddiwyd cronfa adfywio'r meysydd glo yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf? (WAQ14339)

**Edwina Hart:** Mae Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo wedi dyrannu'r cyllid isod i brosiectau yng Nghymru rhwng Hydref 2000 a Hydref 2001:

| **Corff** | **A**<br>Cymunedau ag Adnoddau a Grym | **B**<br>Cymunedau sy'n Mentro | **C**<br>Cymunedau Dysgu Gydol Oes |
|---|---|---|---|
| Canolfan Gymunedol Cwm Clydach | £82,939 | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | £39,500 | | |
| Fairbridge De Cymru | £56,210 | | |
| Ymddiriedolaeth Neuadd ac Institiwt Cyhoeddus Cwmaman | £74,807 | | |
| Prosiect Ieuenctid Cwm Ogwr | £81,606 | | |
| Menter Cwm Aman | £147,750 | | |
| Cyngor Eglwysig Plwyf Bedwas a Threthomas | £17,542 | | |
| Ymddiriedolaeth Broli Cymraeg Cyf | £8,850 | | |
| Datblygu Ieuenctid Garndiffaith | £17,188 | | |
| Canolfan Gymuned Cefn Coed | £19,240 | | |
| Groundwork Wrecsam | £36,115 | | |
| Cwmni Hwyl a Chân | £1,939 | | |
| Undeb Credyd Llanelli a'r Cylch | £47,500 | | |
| Canolfan Datblygu a Hyfforddi Gydweithredol Cymru | £11,200 | | |
| Cymdeithas Lles Glowyr Aber-craf a'r Cylch | £76,410 | | |
| Cyngor Sir y Fflint | | £23,776 | |
| Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, De Cymru | | | £156,329 |

| | |
|---|---|
| View (Dove) Ltd—Gweithdy Dove, De Cymru | £6,280 |
| Menter Cwm Gwendraeth | £17,500 |

| | | |
|---|---|---|
| **A = Cymunedau ag Adnoddau a Grym** | | **£718,796** |
| **B = Cymunedau sy'n Mentro** | | **£23,776** |
| **C = Cymunedau Dysgu Gydol Oes** | | **£180,109** |
| | Cyfanswm | **£922,681** |

**Buddiolwyr Cronfa Adfywio'r Meysydd Glo**

**Jocelyn Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau mai dim ond y cymunedau glofaol sy'n elwa o'r cyllid a fwriadwyd ar gyfer cronfa adfywio'r meysydd glo? (WAQ14340)

**Edwina Hart:** Mae Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yn gorff â chyfansoddiad cyfreithiol sydd â chylch gwaith penodol i weinyddu rhaglen grantiau sydd wedi'i thargedu at adfywio cymunedau'r hen feysydd glo. Mae'n targedu wardiau mwyaf difreintiedig y meysydd glo fel y'u rhestrwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam drwy ddefnyddio dadansoddiad a baratowyd yn unswydd ar gyfer yr ymddiriedolaeth. Yr oedd diffinio'r buddiolwyr yn benodol yn ofyniad gan y Comisiwn Elusennau pan sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn wreiddiol.

**Ategu Cyllid Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**

**Jocelyn Davies:** Pa gynlluniau cyllid sydd wedi'u defnyddio i ategu cyllid Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ14341)

**Edwina Hart:** O dan Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, yr wyf am sicrhau bod y cynlluniau cyllido oll yn targedu ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae canllawiau ar y mathau a'r lefelau o gyllid a chymorth sydd ar gael i bartneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'n ymdrin â rhaglenni cyllido'r Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â'r cyllid a'r cymorth sydd ar gael oddi wrth ystod eang o asiantaethau.

**Arian Cronfa Adfywio'r Meysydd Glo (Cyfuno â Chyllid Rhoi Cymunedau'n Gyntaf)**

**Jocelyn Davies:** Pryd y penderfynwyd cyfuno'r arian a fwriadwyd ar gyfer cronfa adfywio'r meysydd glo â chyllid Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ14342)

**Edwina Hart:** Ni benderfynwyd cyfuno'r arian y gellid ei ddyrannu i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo gyda'r gyllideb Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

**Cronfa Adfywio'r Meysydd Glo (Buddion i Gymunedau tu allan i'r Meysydd Glo)**

**Jocelyn Davies:** A yw'r ffaith fod arian cronfa adfywio'r meysydd glo yn cael ei ddefnyddio i ategu arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn golygu y gallai cymunedau o'r tu allan i'r meysydd glo elwa o'r arian a fwriadwyd i adfywio'r meysydd glo? (WAQ14343)

**Edwina Hart:** Na, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cyllid craidd i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i weinyddu cynllun grantiau sydd wedi'i dargedu at gymunedau'r hen feysydd glo. Mae'r cyllid i ddod i ben ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda'r ymddiriedolaeth ynglŷn â chyllid ar gyfer y dyfodol ac wedi gofyn iddi ddarparu cynllun busnes i ddangos sut y gall ddefnyddio'r arian a fydd ar gael o fewn cymunedau'r meysydd glo i gyd-fynd â gweithgareddau a roddir ar waith o fewn ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Disgwyliaf i'r arian hwn

gael ei dargedu at y rhannau hynny o'r hen feysydd glo nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

### Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo (Cymru)

**Jocelyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau â chynrychiolwyr Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo (Cymru)? (WAQ14344)

**Edwina Hart:** Nac ydw.

### *South Wales Argus*

**David Davies:** A wnaiff y Cynulliad ddechrau hysbysebu swyddi yn y *South Wales Argus*? (WAQ14345)

**Edwina Hart:** Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol yw rhoi hysbysebion yn y papurau hynny sydd â'r cylchrediad ehangaf yn dibynnu ar natur y swydd(i) a hysbysebir. Nid yw hyn yn y gorffennol wedi cynnwys y *South Wales Argus*. Fodd bynnag, mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r polisi hysbysebu er mwyn pennu'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyrraedd ymgeiswyr posibl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Canolfan Aelodau Artiffisial Ysbyty Wrecsam Maelor

**Alun Pugh:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw broblemau yn y Ganolfan Aelodau Artiffisial (ALAC) yn Ysbyty Wrecsam Maelor? (WAQ14166)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Daeth y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau oddi wrth y Gwasanaeth Aelodau ac Offer Artiffisial (ALAS) ar 1 Ebrill 2000. Cyn hynny, cynhyrchodd y comisiwn adroddiad cychwynnol a dynnai sylw at nifer o bryderon ynglyn ag ALAS ac mae archwiliad dosbarth ers hynny wedi cadarnhau'r pryderon hyn ac wedi nodi'r camau gweithredu i'w cymryd. Aethpwyd ar drywydd y rhain gyda'r ymddiriedolaethau NHS dan sylw. Cyflwynwyd cynllun gweithredu cyd-reoli ym Mawrth 2001, ar y cyd ag Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru, ac mae eisoes wedi golygu bod sylw'n cael ei roi i faterion allweddol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd y broses o unioni'r materion hyn yn cymryd amser.

Yr wyf yn ymwybodol o'r problemau a gafwyd i lenwi rhai uwch swyddi therapi galwedigaethol yng ngogledd Cymru. Deallaf fod Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru yn ymdrechu'n galed i recriwtio'r staff angenrheidiol, ond yn y cyfamser y mae'n blaenoriaethu ymweliadau ac yn gwneud trefniadau amgen lle bo hynny'n briodol.

Mae'r Cynulliad yn sicrhau bod rhagor o fyfyrwyr therapi galwedigaethol o Gymru yn cael eu hyfforddi ac mae nifer y lleoedd a gomisiynir wedi'i gynyddu dros y blynyddoedd diwethaf o 47 yn 1999 i ragor na 70 yn 2001.

### Cyffuriau Remicade ac Enbrel

**Rod Richards:** A wnaiff y Gweinidog restru'r awdurdodau iechyd hynny yng Nghymru sy'n caniatáu defnyddio'r cyffuriau remicade ac enbrel i drin cryd cymalau? (WAQ14198)

**Jane Hutt:** Fe'm hysbyswyd bod cyffuriau ffactor necrosis gwrth-dyfiant (enbrel a remicade) yn cael eu cyflenwi gan yr ysbytai isod yng Nghymru: Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Ysbyty'r Tywysog Philip, Ysbyty Cyffredinol Castell-nedd, Ysbyty Athrofa Cymru, Caerdydd, Ymddiriedolaeth Ysbyty

Gogledd Ddwyrain Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. Disgwylir i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ddarparu canllawiau clinigol ar effeithiolrwydd cyffuriau ffactor necrosis gwrth-dyfiant ym Mawrth y flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, mater i'w benderfynu'n lleol o hyd yw cyflenwi'r cyffuriau hyn o dan yr NHS.

**Ariannu Hosbisau yng Nghymru**

**Rod Richards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisïau pob awdurdod lleol yng Nghymru ar ariannu hosbisau? (WAQ14199)

**Jane Hutt:** Trosglwyddwyd y cyllid am wasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru, gan gynnwys cyllid ar gyfer hosbisau, i ddyraniad cyffredinol yr awdurdodau iechyd yn 1995. O ganlyniad, cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yw defnyddio eu dyraniad cyffredinol i brynu gwasanaethau ar ôl asesu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cynulliad wedi cynyddu'r cyllidebau a ddyfernir i'r awdurdodau iechyd ar ffurf dyraniad cyffredinol a bydd y gwariant ar iechyd yn gyffredinol yn cynyddu o £2.6 biliwn yn 1999/2000 i £3.6 biliwn yn 2003/04. Dylai'r lefel hon o fuddsoddiad, nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, helpu i sicrhau bod pob claf yn derbyn gwell gwasanaeth gan yr NHS yng Nghymru. Yr ydym yn annog awdurdodau iechyd i brynu gwasanaethau priodol o ansawdd uchel oddi wrth yr NHS a'r sector gwirfoddol. Yn y pen draw, fodd bynnag, mater i'r awdurdodau yw pennu patrwm y gwasanaethau gan gofio y gellir darparu gofal gartref neu mewn ysbyty yn ogystal ag mewn hosbis.

Mater i'w benderfynu'n lleol yw'r polisi ar ddefnyddio hosbisau ac ni fyddem fel arfer yn casglu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae fy swyddogion wedi cysylltu â'r awdurdodau iechyd ac mae copi o'u hatebion wedi'i roi yn Llyfrgell y Cynulliad.

**Ariannu Hosbisau yn Lloegr a'r Alban**

**Rod Richards:** Faint o gyllid, ar gyfartaledd, y mae hosbisau yn ei dderbyn gan yr NHS yn Lloegr a'r Alban? (WAQ14200)

**Jane Hutt:** Mater i benderfynu arno'n lleol, gan yr awdurdodau iechyd yng Nghymru a Lloegr a'r byrddau iechyd yn yr Alban, yw ariannu hosbisau.

Ers 1995-96, y flwyddyn gynharaf y mae ffigyrau ar gael amdani, mae cyfanswm canran y cyllid refeniw a ddarparwyd i hosbisau ar gyfer oedolion yn yr Alban gan fyrddau iechyd a thrwy roddion elusennol fel a ganlyn:

| | Cyfanswm % cyllid refeniw NHS | Cyfanswm % rhoddion elusennol |
|---|---|---|
| 1995-96 | 43 | 57 |
| 1996-97 | 42 | 58 |
| 1997-98 | 43 | 57 |
| 1998-99 | 40 | 60 |
| 1999-00 | 40 | 60 |
| 2000-01 | 39 | 61 |

Nid yw'r Adran Iechyd yn caglu'r ffigurau hyn yn ganolog. Mae polisi penderfynu'n lleol yr un yn Lloegr ag y mae yng Nghymru.

**Ariannu Hosbisau o Goffrau'r NHS**

**Rod Richards:** Beth yw polisi'r Gweinidog ar ariannu hosbisau o goffrau'r NHS? (WAQ14201)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yw defnyddio eu dyraniad cyffredinol i brynu gwasanaethau yn sgîl asesu anghenion a blaenoriaethau lleol. Mater i'r awdurdodau hyn yw pennu patrwm y gwasanaethau gan gofio y gellir darparu gofal gartref neu mewn ysbyty yn ogystal ag mewn hosbis.

Fei' gwneuthum yn glir fy mod yn disgwyl i awdurdodau iechyd weithio gyda'r sector gwirfoddol, yn ogystal â'i bartneriaid eraill, wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Pwysleisiai canllawiau'r Swyddfa Gymreig yn WHC(94)65 'Funding of the Voluntary Hospice movement' y dylai pawb yng Nghymru allu manteisio ar ofal lliniarol o'r un safon uchel ac y dylai'r NHS a mudiad yr hosbisau gwirfoddol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Mae gwaith ar y gweill i ddarparu strategaeth gofal lliniarol i Gymru gyda chymorth buddianwyr allweddol ym maes gofal lliniarol, yn cynnwys Cymdeithas Hosbisau a Gofal Lliniarol Arbenigol Cymru. Bydd y strategaeth yn adlewyrchu'r adolygiad diweddar o wasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru a gynhaliwyd gan Bwyllgor Meddygol Cymru.

### Darparwyr Gofal Iechyd a Chymdeithasol Annibynnol

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chyfarfod diweddar â chynrychiolwyr darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol annibynnol yng Nghymru? (WAQ14214)

**Jane Hutt:** Ar 15 Hydref, cynhaliais drafodaethau gyda chynrychiolwyr darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol statudol ac annibynnol yng Nghymru, i edrych ar gyflwr y sector gofal ar hyn o bryd a'r ffyrdd gorau o reoli'r pwysau sy'n cronni dros fisoedd y gaeaf yn arbennig.

Trafodasom y pwysau ariannol a phwysau eraill sydd ar ddarparwyr yn y sector annibynnol ar hyn o bryd, yn ogystal â'r problemau ymarferol sy'n wynebu llawer o bobl, yn enwedig yr henoed, y mae angen cymorth arnynt i gadw eu hannibyniaeth gartref, yn arbennig os ydynt yn sâl ac wedi eu derbyn i'r ysbyty.

Ar 18 Hydref cyhoeddais £8 miliwn i helpu awdurdodau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i ymdopi â'r pwysau fydd yn eu hwynebu y gaeaf hwn. Darperir £5 miliwn o'r swm hwn i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r problemau o orfod oedi cyn trosglwyddo gofal. Bydd yr arian hwn ar gael ar gyfer mesurau i helpu awdurdodau lleol i gomisiynu lle ychwanegol mewn cartrefi preswyl a nyrsio, ceisio osgoi derbyn pobl i'r ysbyty a chefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Mae cynrychiolwyr y sector annibynnol, llywodraeth leol a'r NHS yn parhau â'u deialog gyda'r Cynulliad i ganfod atebion i'r problemau y mae'r sector yn eu hwynebu.

### Data ar y Presgripsiynau a Roddwyd

**Rod Richards:** Mewn perthynas â WAQ13378, a yw'r data a ddefnyddir wrth gyfrif y presgripsiynau a roddwyd yn seiliedig ar ddata Lloegr neu ddata Cymru? (WAQ14218)

**Jane Hutt:** Mae'r data yn dangos presgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygon teulu yng Nghymru sydd wedi'u casglu, ac fe'u darparwyd gan Atebion Iechyd Cymru.

### Cig wedi'i Fewnforio (Archwilio am Ddeunydd â Risg Benodol)

**Peter Rogers:** Sawl chwarter o gig wedi'i fewnforio a gafodd ei archwilio am ddeunydd â risg benodol iddo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ14288)

**Peter Rogers:** Sawl archwiliad am ddeunydd â risg benodol iddo mewn cig wedi'i fewnforio a gynhaliwyd yng Nghymru gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ14289)

**Jane Hutt:** Y Gwasanaeth Hylendid Cig (asiantaeth weithredol yn perthyn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd) sy'n gyfrifol am orfodi'r mesurau penodedig i reoli deunydd â risg benodol iddo o fewn eiddo trwyddedig.

Nid yw'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn cadw cofnod o nifer y chwarteri o gig wedi'i fewnforio a archwilir am ddeunydd â risg benodol iddo. Fodd bynnag, ers Ebrill 2001, mae pob carcas cig eidion wedi'i fewnforio (sy'n cynnwys chwarteri) wedi'i archwilio i wneud yn siwr bod pob deunydd sydd â risg benodol iddo wedi ei dynnu allan. Rhwng Ebrill a Gorffennaf eleni, archwilio y Gwasanaeth Hylendid Cig yng Nghymru 96 llwyth o gig eidion wedi'i fewnforio a chafodd pob carcas o fewn y llwythi hyn ei archwilio am ddeunydd â risg benodol iddo. Ni chafwyd adroddiadau am ddeunydd â risg benodol iddo yn cael ei ddarganfod mewn unrhyw fewnforion cig a archwiliwyd gan y Gwasanaeth Hylendid Cig yng Nghymru.

Ers Awst 2001, yn sgîl newid deddfwriaethol a wnaeth asgwrn cefn gwartheg yn ddeunydd â risg benodol iddo, dim ond mewn eiddo trwyddedig penodedig y ceir prosesu carcasau wedi'u mewnforio. Nid oes ond un eiddo wedi'i ddynodi yng Nghymru a hyd yma nid oes unrhyw lwythi o gig eidion wedi'i fewnforio sy'n cynnwys carcasau wedi'u derbyn.

### Triniaeth Cyffuriau ac Alcohol

**Delyth Evans:** Beth yw rôl y Cynulliad Cenedlaethol o ran cefnogi triniaeth cyffuriau ac alcohol yng Nghymru? (WAQ14346)

**Jane Hutt:** Lansiais strategaeth hirdymor y Cynulliad Cenedlaethol 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: y Dull Partneriaeth' ym Mai 2000. Un o bedwar nod allweddol y strategaeth yw galluogi pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau i'w goresgyn a byw bywydau iach a llawn ac, yn achos troseddwyr, fywydau di-drosedd. Mae'r Cynulliad yn cefnogi'r gwaith o ddarparu triniaeth a gofal i'r sawl sy'n camddefnyddio sylweddau mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys darparu adnoddau sylweddol i wella mynediad at driniaeth a gofal i gamddefnyddwyr sylweddau. Erbyn 2003, ein bwriad yw bron iawn dyblu gwerth ein cronfa triniaeth cyffuriau ac alcohol o'i lefel o £1.5 miliwn yn 1999-2000. Mae'r Cynulliad hefyd yn darparu cymorth grant i fudiadau gwirfoddol sy'n darparu cyfleusterau preswyl sy'n cynnig triniaeth a chyfundrefn adsefydlu tymor byr i'r sawl sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Ffin Ardal Heintiedig

**Peter Rogers:** O ran yr ateb a roddwyd i'm cwestiwn WAQ13226 ar 26 Hydref 2001 ynghylch dynodi ffin ardal heintiedig, pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu ysgrifennu? (WAQ14022)

**Carwyn Jones:** Caiff copi o'm llythyr ei osod yn y Llyfrgell ddydd Gwener 16 Tachwedd.

### Arwerthiannau Da Byw

**Peter Rogers:** A fydd y Gweinidog yn ateb y miloedd o lythyron a gyflwynais iddo yn cefnogi'r system arwerthu da byw gyda'm dadl fer 'Bywyd yn y Cylch Arwerthu: Pam fod Arwerthiannau Da Byw yn Bwysig' ar 8 Tachwedd 2001? (WAQ14175)

**Carwyn Jones:** Nid yw'n arferol ymateb i'r unigolion sydd wedi ychwanegu eu henw at ddeiseb ymgyrchu. Fe'i gwnaethpwyd yn glir gennyf yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Tachwedd fod Llywodraeth y Cynulliad yn gweld rôl i'r system arwerthiannau da byw.

### Ehangu Cyfrifioldebau Adran y Gweinidog

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a Gweinidogion Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch ehangu cyfrifoldebau ei adran ef? (WAQ14212) [W]

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion DEFRA i drafod amrediad eang o faterion.

### Hybu Lladd-dai Gwledig

**Nick Bourne:** Pa fesurau a gymer y Gweinidog i hybu lladd-dai gwledig? (WAQ14384)

**Carwyn Jones:** Bydd Awdurdod Datblygu Cymru, yn gweithredu fel asiant i'r Cynulliad, yn ystyried cynigion gan ladd-dai (ac eraill sy'n dymuno sefydlu lladd-dai) o dan drefniadau'r grant prosesu a marchnata. Caiff pob cynnig ei ystyried yn ôl ei deilyngdod, yn erbyn y meini prawf grantiau a sefydlwyd ac yng nghyd-destun strategaeth bwyd-amaeth Cymru.

Buom hefyd yn pwyso ar Lywodraeth y DU i weithredu argymhellion adroddiad Maclean ynglyn â'r baich rheoliadol ar ladd-dai bach. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 28 Tachwedd y llynedd ei bod yn derbyn yr angen i ysgafnhau baich y taliadau hylendid cig ar ladd-dai llai ac y câi gymorth ychwanegol gwerth £8.7 miliwn ei ddarparu o 2001/02. Yr oedd hyn yn cynnwys £609,000 oddi wrth y Cynulliad i helpu lladd-dai bach yng Nghymru.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd a fu'n ymdrin â rhoi'r argymhellion hyn ar waith, a daeth y ddeddfwriaeth berthnasol i rym ar 1 Ebrill 2001.

### Lladd-dai Bach (Lleihad Cefnogaeth)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog esbonio paham y mae'r gyllideb i gefnogi lladd-dai bach wedi'i lleihau yn y gyllideb ddrafft? (WAQ14385)

**Carwyn Jones:** Byddaf yn ysgrifennu atoch yn fuan ac yn rhoi copi yn y Llyfrgell.